OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 1606 (Cy. 164) (C. 64)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

# Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 9) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i adran 11(3), (4) ac adran 70 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur").

Mae gweddill adran 11 eisoes mewn grym. Mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn ei ardal i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol gan roi sylw i'w asesiad a gwblhawyd yn unol â'i ddyletswydd o dan adran 11(1) o'r Mesur. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae yn eu hardal a diweddaru'r wybodaeth hon.

Mae adran 70 yn nodi darpariaethau penodol mewn cysylltiad â chanllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur i gyrff y mae rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau. Mae adran 70(2)(a) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i gyrff yn gyffredinol neu i un corff penodol neu i gyrff penodol. Mae adran 70(2)(b) yn darparu y caniateir i ganllawiau gwahanol gael eu dyroddi i gyrff gwahanol neu mewn perthynas â hwy. Mae adran 70(2)(c) yn datgan bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn iddynt ddyroddi canllawiau, ymgynghori â'r cyrff hynny y mae rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau. Mae adran 70(2)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i'r canllawiau gael eu cyhoeddi.

**NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wedi eu dwyn i rym drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 2 (i'r graddau y mae'n gymwys i awdurdodau Cymreig) | 10 Ionawr 2011 | O.S. 2010/2994 (Cy.248) (C.134) |
| Adrannau 4, 5 a 6 | 10 Ionawr 2011 | O.S. 2010/2994 (Cy.248) (C.134) |
| Adran 11 (ac eithrio is-adrannau (3) a (4)) | 1 Tachwedd 2012 | O.S. 2012/2453 (Cy.267) (C.96) |
| Adran 12 | 31 Ionawr 2012 | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| Adrannau 17 a 18 | 10 Ionawr 2011 | O.S. 2012/2994 (Cy.248) (C.134) |
| Adrannau 19-56 | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123) |
| Adrannau 57, 58 (1), (3)-(5), (6)(a), (7)-(9), (11)-(14) | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| | 28 Chwefror 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) a 31 Mawrth 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig eraill) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| | 1 Chwefror 2013 (mewn | O.S. 2013/18 (Cy.9) (C.2) |

| | | |
|---|---|---|
| | perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | |
| | 31 Gorffennaf 2013 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2013/1830 (Cy.184) (C.78) |
| | 28 Chwefror 2014 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2014/373 (Cy.41) |
| Adran 58(2) | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| | 27 Ionawr 2012 (mewn perthynas â'r ardaloedd yng Nghymru sy'n weddill) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| Adran 58(10) | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| | 28 Chwefror 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) a 31 Mawrth 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig eraill) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| | 1 Chwefror 2013 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol | O.S. 2013/18 (Cy.9) (C.2) |

| | | |
|---|---|---|
| | penodedig) | |
| | 19 Gorffennaf 2013 (mewn perthynas â’r ardaloedd yng Nghymru sy’n weddill) | O.S. 2013/1830 (Cy.184) (C.78) |
| Adrannau 59(1), (3), 60(2), 61, 62(1), 64 a 65 | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| | 28 Chwefror 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) a 31 Mawrth 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig eraill) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| | 1 Chwefror 2013 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2013/18 (Cy.9) (C.2) |
| | 31 Gorffennaf 2013 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2013/1830 (Cy.184) (C.78) |
| | 28 Chwefror 2014 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2014/373 (Cy.41) |
| Adran 59(2) | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |

| | | |
|---|---|---|
| | 28 Chwefror 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) a 31 Mawrth 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig eraill) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| | 1 Chwefror 2013 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2013/18 (Cy.9) (C.2) |
| | 19 Gorffennaf 2013 (mewn perthynas â’r ardaloedd yng Nghymru sy’n weddill) | O.S. 2013/1830 (Cy.184) (C.78) |
| Adrannau 60(1), 62(2) a 63 | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| | 27 Ionawr 2012 (mewn perthynas â’r ardaloedd yng Nghymru sy’n weddill) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| Adran 72 ac Atodlen 1 paragraffau 1-18, paragraffau 21-28 | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123) |
| Adran 73 ac Atodlen 2 (i’r graddau y maent yn ymwneud â Deddf Plant 1989, Deddf Addysg | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123) |

| | | |
|---|---|---|
| 2002 a Deddf Gofal Plant 2006) | | |

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 1606 (Cy. 164) (C. 64)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 9) 2014

*Gwnaed* *11 Mehefin 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 75(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 9) 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwrnod Penodedig**

**2.**—(1) 30 Mehefin 2014 yw'r diwrnod a bennir i adran 70 (canllawiau) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ddod i rym.

(2) 1 Gorffennaf 2014 yw'r diwrnod a bennir i adran 11(3) a (4) (dyletswyddau awdurdod lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ddod i rym.

*Vaughan Gething*

(**1**) 2010 mccc 1.

Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi, o dan awdurdod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru.

11 Mehefin 2014